Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y Frenhines hardd - Esther

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest
addaswyd gan: Ruth Klassen
Alastair Paterson
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Un tro roedd merch brydferth o'r enw Esther. Wedi i'w rhieni farw, fe wnaeth cefnder Esther, Mordecai, ofalu amdani. Dangosodd Esther barch at ei chefnder. Fe wnaeth hi ufuddhau iddo a bod yn ferch dda.





Roedd Esther yn byw yng ngwlad Persia, ond doedd hi ddim yn perthyn i genedl Persia – roedd hi'n Iddewes. Daeth ei phobl i wlad Persia fel carcharorion rhyfel. Roedd llawer o Iddewon yn byw yn Persia yn amser Esther.

Dyma Frenin Persia yn cynnal gwledd fawr i dywysogion o bob rhan o'r byd. Roedd y merched yn bwyta gyda'r Frenhines Fashti, a'r dynion yn bwyta ar wahân. Gorchmynnodd y Brenin meddw i'r Frenhines Fashti wisgo ei choron a dangos ei phrydferthwch i bawb. Gwrthododd y Frenhines!

Er mwyn
dangos fod
angen i ferched
barchu eu gwŷr,
dyma'r brenin yn
pasio deddf
oedd yn cymryd
y goron oddi wrth
Fashti. Doedd
hi ddim yn
frenhines mwy.



Fe wnaethon nhw chwilio am frenhines newydd. O holl ferched prydferth y deyrnas, dewisodd y brenin Esther i fod yn wraig iddo. Dyma fe'n coroni Esther. Doedd hi ddim wedi dweud wrth y brenin ei bod hi'n Iddewes am fod ei chefnder wedi dweud wrthi am beidio.



Roedd Mordecai yn arfer treulio amser wrth fynedfa'r palas er mwyn clywed unrhyw newydd am Esther. Un diwrnod fe glywodd dau o weision y palas yn cynllunio i lofruddio'r brenin.



Anfonodd Mordecai neges yn rhybuddio'r brenin ac achubodd ei fywyd. Cafodd y gweision eu crogi, ac fe gafodd enw Mordecai ei ysgrifennu yn llyfr cofnodion y Brenin.

Y person agosaf i'r brenin mewn pwysigrwydd oedd dyn cyfoethog o'r enw Haman. Roedd pawb yn plygu o flaen Haman wrth iddo fynd heibio. Pawb ond un! Fel Iddew, roedd Mordecai yn plygu i neb ond i Dduw.



Roedd Haman yn casáu Mordecai gymaint nes iddo benderfynu ei ladd e, a phob Iddew arall yn Persia. Dyna ofnadwy! Fe wnaeth Haman drwg dwyllo'r brenin i arwyddo deddf oedd yn dweud fod pob Iddew yn y deyrnas i gael ei ladd ar ddiwrnod penodol.





Roedd yn ddeddf ofnadwy. Roedd yr Iddewon a'r Persiaid yn drist. Ond mae'n bwysig cofio – roedd Duw wedi gwneud hi'n bosib i Esther fod yn frenhines. Ac roedd hi'n Iddewes. Fyddai hi'n cadw ei chyfrinach rhag y brenin? Neu, a fyddai hi'n barod i fentro i achub ei phobl?

Rhoddodd Duw syniad da i Esther. Dyma hi'n gwahodd y Brenin a Haman i wledd. Yn ystod y wledd, fe wnaeth y brenin addo unrhyw beth roedd hi'n dymuno. Gofynnodd i'r brenin a Haman ddod i wledd arall y diwrnod canlynol. Byddai'n dweud wrth y brenin beth oedd ei dymuniad bryd hynny.



Tra roedd hyn yn digwydd,
roedd Haman yn trefnu
adeiladu crocbren
mawr – er mwyn
crogi Mordecai.





Roedd y brenin yn methu cysgu'r noson honno. Wrth ddarllen llyfr cofnodion y llys, gwelodd fod Mordecai heb dderbyn gwobr am achub ei fywyd. Yn y bore, gofynnodd y brenin i Haman, "Beth ddylid ei wneud os ydy'r brenin wir eisiau anrhydeddu rhywun?" Roedd Haman wrth ei fodd – roedd e'n meddwl mai fe oedd yn mynd i gael ei anrhydeddu gan y brenin!



Roedd Haman yno i ofyn am ganiatâd y brenin i grogi Mordecai. Roedd y crocbren yn barod, ond byddai'n rhaid oedi. Yn gyffro i gyd, awgrymodd Haman, "Gwisgo'r dyn gyda mantell a choron frenhinol."

"Ei osod ar geffyl y brenin. Ei arwain drwy'r ddinas i bawb ei weld." A dyma'r brenin yn rhoi gorchymyn i Haman, "Brysia, a gwna hynny i Mordecai yr Iddew."

Meddyliwch sut oedd Haman yn teimlo wrth iddo orfod anrhydeddu Mordecai a'i arwain trwy'r ddinas! Roedd yn casáu Mordecai fwy a mwy. Efallai ei fod wedi meddwl, "Aros di, fe fyddi'n cael dy ladd cyn hir – ti a phob Iddew arall."

Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, aeth y brenin a Haman i wledd y Frenhines Esther. "Beth ydy dy ddymuniad?" gofynnodd y brenin. Doedd e ddim wedi anghofio ei addewid. Pwyntiodd Esther at Haman a dweud wrth y brenin am gynllun drwg Haman. "Crogwch e!" dywedodd y brenin.



Yna fe wnaeth y brenin basio deddf arall oedd yn gadael i'r Iddewon amddiffyn eu hunain. Roedden nhw'n ddiogel! Cafodd Mordecai ei ddyrchafu yn ail i'r brenin, ac fe wnaeth yr holl Iddewon lawenhau a rhoi anrhegion i'w gilydd. Hyd heddiw, mae'r Iddewon yn cofio fel gwnaeth Duw eu hachub trwy'r Frenhines hardd Esther.



Y Frenhines hardd – Esther

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Esther

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd





Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16